

Mynediad i swyddi etholedig i bobl anabl: ymateb i'r ymgyngoriad cyhoeddus

Medi 2011

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Y broses ymgynghori	5
Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.....	7
Atodiad A – Rhestr o'r sefydliadau ac unigolion a ymatebodd.....	18

Cyflwyniad

1. Mae sicrhau bod pawb yn cael llais yn ein sefydliadau democrataidd yn gwneud ein democratiaeth yn gryfach ac yn gwella'r modd y mae'r cyrff etholedig hynny yn gwneud penderfyniadau. Dyna pam bod y Llywodraeth wedi nodi ei huchelgais i gynnig cefnogaeth ychwanegol i bobl anabl sydd am ddod yn Aelodau Seneddol, cynghorwyr neu swyddogion etholedig eraill fel ymrwymiad yng Nghytundeb y Glymblaid.

2. Roedd yr ymrwymiad hwn yn dilyn canfyddiadau Cynhadledd draws bleidiol y Llefarydd a gyflwynodd adroddiad yn Ionawr 2010 ar sut i gynyddu amrywiaeth mewn cynrychiolaeth Seneddol trwy ymdrin â rhai o'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli (menywod, lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl yn arbennig).

3. Dynododd Cynhadledd y Llefarydd dri rhwystr allweddol i bobl anabl sy'n ceisio cael eu hethol: agweddau, cyfyngiadau ariannol, a hygyrchedd. Rydym yn cydnabod bod ymdrin â'r rhwystrau hyn yn ganolog i effeithiolrwydd y polisi hwn a byddwn yn chwilio am ffyrdd i'w trin trwy'r Strategaeth derfynol.

4. Lluniwyd y cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dilyn ymarfer ennyn ymlyniad anffurfiol a gynhaliwyd gan y Llywodraeth ym Medi/Hydref 2010. Roedd y sefydliadau y gwnaethom gysylltu â nhw yn cynnwys:

- yr holl bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir ym Mhalas Westminster;
- sefydliadau anabledd gan gynnwys RADAR, Scope, RNIB a RNID;
- sefydliadau gyda phwyslais ar gydraddoldeb, gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

5. Fe wnaethom ymgynghori ar chwe chynnig:

Cynnig 1: Dylai'r Llywodraeth weithio yn fwy clos gyda phleidiau gwleidyddol, y Gymdeithas Llywodraeth Leol a sefydliadau anabledd i ddatblygu gwaith codi ymwybyddiaeth gyda phwyslais pendant.

Cynnig 2: Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol, y Gymdeithas Llywodraeth Leol a sefydliadau pobl anabl i ddatblygu rhaglen Llysgenhadon traws bleidiol.

Cynnig 3: Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyda'r nod o gefnogi pobl anabl ar hyd y llwybr at gyfranogiad gwleidyddol.

Cynnig 4: Sefydlu Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i dalu costau sy'n gysylltiedig ag anabledd.

Cynnig 5: Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol i ddadansoddi eu polisiâu mynediad i'r anabl presennol a rhaeadru a hyrwyddo unrhyw arfer da.

Cynnig 6: Hyrwyddo ac esbonio ymrwymadau cyfreithiol sy'n berthnasol i bleidiau gwleidyddol, e.e. datblygu canllaw byr; deunyddiau gwefan a/neu becyn offer i gefnogi awdurdodau lleol a phleidiau gwleidyddol i gyflawni eu dyletswyddau dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

6. Mae'r ddogfen hon yn nodi gwybodaeth am y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad, yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac yn disgrifio canlyniad yr ymgynghoriad. Rhoddir crynodeb mwy manwl ar gyfer y cwestiwn allweddol a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad: pa un neu fwy o'r cynigion ydych chi'n ei feddwl fyddai'n cael yr effaith fwyaf (wrth gefnogi pobl anabl) a throsolwg o'r ymatebion a roddwyd i'r cwestiynau eraill a ofynnwyd.

7. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr atebion a dderbyniwyd wrth benderfynu pa gynigion i'w symud ymlaen fel rhan o'r Strategaeth Mynediad i Swyddi Etholedig i gefnogi pobl anabl sydd am ymgeisio am swydd etholedig. Bydd y Llywodraeth yn symud y cynigion i gyd ymlaen, ac eithrio'r rhaglen Llysgenhadon traws bleidiol (cynnig 2).

8. Bydd y gyfran fwyaf o'r cyllid yn cael ei gyfeirio at gyflawni cynnig 3 (cyfleoedd hyfforddi a datblygu) a chynnig 4 (sefydlu Cronfa ar gyfer pobl anabl sy'n chwilio am swydd etholedig). Fe fyddwn yn ceisio cyflawni cynnig 1 (codi ymwybyddiaeth), cynnig 5 (polisiâu mynediad i'r anabl) a chynnig 6 (hyrwyddo ymrwymadau cyfreithiol) mewn modd cymesur i sicrhau bod y cyllid yn cael ei wario yn nhrefn blaenoriaeth y cynigion sy'n cael mwyaf o gefnogaeth.

9. Byddwn yn gweithio dros y misoedd nesaf gyda phleidiau gwleidyddol, y Gymdeithas Llywodraeth Leol, cyrff anabledd a grwpiau cydraddoldeb eraill i gael trefn derfynol ar y Strategaeth. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig er mwyn galluogi i arfer gorau o'r strategaeth hon gael ei ddefnyddio ar gyfer etholiadau i'r cyrff datganoledig ac etholiadau lleol yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

10. Bydd y Strategaeth yn cynnig cefnogaeth i bobl anabl sy'n dymuno sefyll naill ai dros bleidiau gwleidyddol neu fel ymgeiswyr annibynnol ar gyfer etholiadau San Steffan, etholiadau awdurdodau lleol Lloegr, etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf, etholiadau Maerol yn Lloegr, ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau.

Rhagor o wybodaeth

11. Os hoffech gael gwybod rhagor am y gwaith hwn yna cofrestrwch eich diddordeb trwy:

- anfon e-bost at: accesstoelectedoffice@geo.gsi.gov.uk
- ffonio: 020 7035 8057/8064
- minicom: 020 7035 4742 (09:00-17:00 Dydd Llun i ddydd Gwener). Sylwer bod y gwasanaeth hwn ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sy'n drwm eu clyw.
- ysgrifennu atom yn: Access to Elected Office Team, Government Equalities Office, Home Office, 3rd Floor, Fry Building, 2 Marsham Street, London SW1P 4DF

Y broses ymgynghori

12. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i roi cefnogaeth ychwanegol i bobl anabl sydd am gael eu hethol i swyddi rhwng 16 Chwefror 2011 ag 11 Mai 2011. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei darllen o'r ddogfen ymgynghorol yn gyfochrog â'r fersiwn lawn. Darparwyd copïau Braille i bawb a ofynnodd amdanynt, ac roedd ffurfiau gwahanol eraill hefyd ar gael.

13. Rhoddodd Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth (GEO) le amlwg i'r ddogfen ymgynghorol ar ei gwefan. Roedd hefyd ar wefannau'r Swyddfa Materion Anabledd (ODI) a DirectGov.

14. Cysylltwyd â phartneriaid allweddol, gan gynnwys sefydliadau anabledd a phleidiau gwleidyddol yn uniongyrchol i roi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad a'u gwahodd i roi sylwadau ar y cynnig, gan gynnwys nifer o grwpiau cydraddoldeb allweddol a chynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Cymerodd Equality 2025 ran weithredol yn y trafodaethau o'r dechrau. Cynhaliwyd dau gyfarfod yn cynnwys cynrychiolwyr o'r cylch gwleidyddol a sefydliadau anabledd ym Mai 2011 er mwyn trafod y cynigion yn fwy manwl. Cynhaliodd y Grŵp Seneddol Traws Bleidiol ar Anabledd hefyd seminar yn canolbwyntio ar yr ymgynghoriad ym Mawrth 2011.

15. Yn ychwanegol, ymgynghorodd GEO â'i rhwydwaith eang o gysylltiadau trwy fwletinâu

rhanddeiliaid a digwyddiadau, fe gyflwynodd y cynigion mewn cyfarfodydd gydag Adrannau eraill y Llywodraeth; a gyda grwpiau cydraddoldeb o bob rhan o'r sbectrwm cydraddoldeb. Er nad yw'r cynigion yn berthnasol i etholiadau yn y Gweinyddiaethau Datganoledig, fe wnaeth y Gweinidogion hefyd ysgrifennu at y Gweinyddiaethau Datganoledig yng Nghymru a'r Alban yn gwahodd eu barn ac yn nodi'r bwriad i weithio gyda nhw wrth rannu arfer da.

16. Gofynnodd yr ymgynghoriad 17 cwestiwn:

- 3 cwestiwn am y strategaeth gyffredinol;
- 3 cwestiwn ar fater newid agweddau (cynigion 1 a 2);
- 4 cwestiwn ar hyfforddi, datblygu a chefnogi (cynnig 3);
- 6 cwestiwn am y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig (cynnig 4);
- 1 cwestiwn cyffredinol ar bolisiau a chyfarwyddyd (cynigion 5 a 6).

17. Derbyniwyd cyfanswm o 45 ymateb. Ymatebodd un sefydliad i'r fersiwn hawdd ei darllen. Gofynnodd un ymatebwr am i'w ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol. Daeth yr ymatebion o ffynonellau gwahanol y mae'r siart a'r tablau isod yn eu darlunio. Mae'r modd y dosbarthwyd yr ymatebwyr yn seiliedig ar y wybodaeth a gofnodwyd ar ymatebion neu os na chynhwyswyd y wybodaeth, ar sail barn orau'r swyddogion oedd yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd.

Manylion yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn ôl sector

Arall

e.e. Unigolion (gan gynnwys cynghorwyr lleol), Undebau Llafur, pleidiau gwleidyddol

29%

Sector Cyhoeddus

e.e. Awdurdodau cyhoeddus, cyrff cynrychioliadol

18%

53%

Gwirfoddol

e.e. Sefydliadau anabledd, grwpiau cydraddoldeb

Cyfanswm y nifer o ymatebion a dderbyniwyd	45
Ymatebion safonol	44
Ymatebion i'r fersiwn hawdd ei darllen	1

18. Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am yr holl ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad. Mae'r rhain wedi cael eu hystyried yn unigol gan GEO ac maent wedi eu hystyried wrth benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth Mynediad i Swyddi Etholedig. Er nad yw'n bosibl disgrifio'r holl ymatebion neu bob barn yn fanwl, mae'r papur hwn yn crynhoi'r pwyntiau allweddol a godwyd.

19. Nodir y dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd gan y ddogfen ymgynghorol isod. Pan ddefnyddiwyd canrannau, yn gyffredinol maent wedi eu cyfrifo ar gyfer bwriadau dangosol yn unig, fel canran o gyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd (gan gynnwys rhai pan na roddwyd ymateb i gwestiwn penodol neu pan na fynegwyd barn benodol o gwbl). Wrth gyfrifo canrannau, ni weithredwyd unrhyw bwysau ar gyfer unrhyw ateb neilltuol.

20. Rhoddir mwy o fanylion ar gyfer Cwestiwn 1. Mae datganiad o ba gynigion fydd yn cael eu symud ymlaen yn dilyn y manylion hyn (td.13). Rhoddir crynodebau byrrach ar gyfer y cwestiynau eraill a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad i nodi'r ystod o ymatebion a dderbyniwyd.

21. Ond fe ddylid sylwi, mai ymarfer ansoddol ac nid meintiol oedd y broses ymgynghorol, ac felly mae'r data a'r canlyniad o angenrheidrwydd yn seiliedig ar ddadansoddiad swyddogion o atebion manwl yr ymatebwyr.

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1: Pa un o'r cynigion hyn neu pa gyfuniad o gynigion ydych chi'n ei gredu fyddai'n cael mwyaf o effaith?


22. dynododd 35 ymateb duedd tuag at ddewis neu gyfuniad o ddewisiadau (78%). Ni wnaeth y 10 ymatebwr oedd yn weddill (22%) nodi pa gynigion yr oeddent yn eu ffafrio yn eu hymateb. dynododd 7 ymatebwr (16%) y byddent yn hoffi gweld y 6 chynnig i gyd yn cael eu gweithredu.

23. Oherwydd natur y cwestiwn a ofynnwyd, rydym wedi dadansoddi'r canfyddiadau yn ôl cynigion unigol i fesur lefel y gefnogaeth.

Cynnig 1

Dylai'r Llywodraeth weithio yn fwy clos gyda phleidiau gwleidyddol, y Gymdeithas Llywodraeth Leol a sefydliadau anabledd i ddatblygu gwaith codi ymwybyddiaeth gyda phwyslais pendant

24. Canolig oedd lefel y gefnogaeth i gynnig 1. Dynododd 19 o'r ymatebwyr (42%) ei bod yn bwysig datblygu gwaith codi ymwybyddiaeth wedi ei ganolbwyntio er mwyn newid canfyddiadau negyddol posib am allu pobl anabl mewn swyddi etholedig, ond roedd mwyafrif yr ymatebwyr hyn (40%) yn dynodi bod y cynnig hwn yn bwysig os cai ei gyflawni ochr yn ochr â chynigion eraill.



O'r 9 ymateb:

- Roedd 2 gan sefydliadau sector cyhoeddus cenedlaethol;
- Roedd 2 gan sefydliadau sector cyhoeddus lleol/rhanbarthol;
- Roedd 8 gan sefydliadau sector gwirfoddol cenedlaethol;
- Roedd 7 gan sefydliadau sector gwirfoddol lleol/rhanbarthol.

Cynnig 2

Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol, y Gymdeithas Llywodraeth Leol a sefydliadau pobl anabl i ddatblygu rhaglen Llysgenhadon traws bleidiol.

25. Roedd llai o gefnogaeth i'r ail gynnig o sefydlu rhaglen Llysgenhadon traws bleidiol, gydag 14 ymatebwr (31%) yn dynodi bod y cynnig hwn yn ffordd bwysig o ymdrin â rhwystrau a allai atal rhywun rhag cymryd swydd etholedig. Dynododd pob un o'r 14 ymatebydd bod y cynnig hwn yn bwysig os cai ei gyflawni gydag un neu fwy o'r cynigion eraill.

26. O'r 14 ymateb a dderbyniwyd:

- Roedd 7 gan sefydliadau sector gwirfoddol cenedlaethol;
- Roedd 3 gan sefydliadau sector gwirfoddol lleol/rhanbarthol;
- Roedd 1 gan sefydliad sector cyhoeddus cenedlaethol;
- Roedd 2 gan sefydliadau sector cyhoeddus lleol/rhanbarthol;
- Roedd 1 yn ymateb unigol.

Cynnig 3

Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyda'r nod o gefnogi pobl anabl ar hyd y llwybr at gyfranogiad gwleidyddol.

27. Roedd lefel gymharol uchel o gefnogaeth i'r cynnig hwn gyda 23 ymatebwr (51%) yn dynodi eu bod yn ffafrio'r cynnig hwn. Dywedodd 2 o'r rhain y gallai hwn fod yr unig gynnig y dylid ei ddatblygu. Dynododd 21 ymateb (47%) bod y cynnig hwn yn bwysig os cai ei ddarparu gydag un neu fwy o'r cynigion eraill.

28. O'r 23 ymateb hynny:

- Roedd 7 gan sefydliadau sector gwirfoddol cenedlaethol;
- Roedd 7 gan sefydliadau sector gwirfoddol lleol/rhanbarthol;
- Roedd 1 gan sefydliad sector cyhoeddus cenedlaethol;
- Roedd 4 gan sefydliadau sector cyhoeddus lleol/rhanbarthol;
- Roedd 3 gan unigolion;
- Roedd 1 gan Undeb Llafur.

Cynnig 4

Sefydlu Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i dalu costau sy'n gysylltiedig ag anabledd.

29. Y cynnig hwn dderbyniodd y lefel uchaf o gefnogaeth. Tynnodd 29 o ymatebwyr (64%) sylw at y cynnig hwn yn eu hymateb. Dynododd 6 o'r 29 ymateb (13% o gyfanswm nifer yr ymatebion) bwysigrwyd y cynnig hwn heb gyfeirio at unrhyw gynnig arall.

30. O'r 29 ymateb hynny:

- Roedd 2 gan sefydliadau sector cyhoeddus cenedlaethol;
- Roedd 5 gan sefydliadau sector cyhoeddus lleol/rhanbarthol;
- Roedd 12 gan sefydliadau sector gwirfoddol cenedlaethol;
- Roedd 4 gan sefydliadau sector gwirfoddol lleol/rhanbarthol;
- Roedd 5 gan unigolion;
- Roedd 1 gan blaid wleidyddol.

Cynnig 5

Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol i ddadansoddi eu polisiau mynediad i'r anabl presennol a rhaedru a hyrwyddo unrhyw arfer da.

31. Y cynnig hwn dderbyniodd y lefel isaf o gefnogaeth gydag 13 ymatebydd (29%) yn dynodi eu bod yn ffafrio'r dewis hwn, ond dim ond os cai ei gyflawni ar y cyd â chynigion eraill.

32. O'r 13 ymateb hynny:

- Roedd 1 gan sefydliad sector cyhoeddus cenedlaethol;
- Roedd 7 gan sefydliadau sector gwirfoddol cenedlaethol;
- Roedd 2 gan sefydliadau sector cyhoeddus lleol/rhanbarthol;
- Roedd 3 gan sefydliadau sector gwirfoddol lleol/rhanbarthol;

Cynnig 6

Hyrwyddo ac esbonio ymrwymadau cyfreithiol sy'n berthnasol i bleidiau gwleidyddol, e.e. datblygu canllaw byr, deunyddiau gwefan a/neu becyn offer i gefnogi awdurdodau lleol a phleidiau gwleidyddol i gyflawni eu dyletswyddau dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

33. Cymharol isel oedd y gefnogaeth i'r cynnig hwn hefyd gydag 14 ymateb (31%) yn tynnu sylw at y dewis yn eu hymateb i Gwestiwn 1. Ni wnaeth unrhyw ymateb dynnu sylw at y cynnig hwn fel dewis unigol posibl. O'r 14 ymateb a dderbyniwyd:

- Roedd 1 gan sefydliad sector cyhoeddus cenedlaethol;
- Roedd 5 gan sefydliadau sector gwirfoddol cenedlaethol;
- Roedd 3 gan sefydliadau sector cyhoeddus lleol/rhanbarthol;
- Roedd 4 gan sefydliadau sector gwirfoddol lleol/rhanbarthol;
- Roedd 1 yn ymateb unigol.

34. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr felly, yn dynodi bod yn well ganddynt ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu (cynnig 3) a sefydlu Cronfa benodol ar gyfer ymgeiswyr anabl posibl (cynnig 4). Derbyniodd y cynigion hyn gefnogaeth gan fwy na 50% o'r holl ymatebwyr.

35. Ein Hymateb

Crynodeb ar gyfer C.1: Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr ymatebion yn ofalus, a bydd yn gweithio ar y cynigion canlynol, fel rhan o'r strategaeth Mynediad i Swyddi Etholedig i bobl anabl:

- **Cynnig 1** – Dylai'r Llywodraeth weithio yn fwy clos gyda phleidiau gwleidyddol, y Gymdeithas Llywodraeth Leol a sefydliadau anabledd i ddatblygu gwaith codi ymwybyddiaeth gyda phwyslais pendant.
- **Cynnig 3** – Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyda'r nod o gefnogi pobl anabl ar hyd y llwybr at gyfranogiad gwleidyddol.
- **Cynnig 4** – Sefydlu Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i dalu costau sy'n gysylltiedig ag anabledd.
- **Cynnig 5** – Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol i ddadansoddi eu polisiau mynediad i'r anabl presennol a rhaedru a hyrwyddo unrhyw arfer da.
- **Cynnig 6** – Hyrwyddo ac esbonio ymrwymadau cyfreithiol sy'n berthnasol i bleidiau gwleidyddol, e.e. datblygu canllaw byr, deunyddiau gwefan a/neu becyn offer i gefnogi awdurdodau lleol a phleidiau gwleidyddol i gyflawni eu dyletswyddau dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Oherwydd lefel y gefnogaeth a dderbyniwyd, bydd blaenoriaeth i gyllido Cynigion 3 a 4. Byddwn hefyd yn gweithio i gyflawni Cynigion 1, 5 a 6 ond byddwn yn ceisio gwneud hynny mewn modd cymesur er mwyn osgoi dargyfeirio adnoddau oddi wrth y dewisiadau sy'n cael mwy o flaenoriaeth.

Byddwn yn ystyried y sylwadau a roddwyd fel atebion i gwestiynau 2-18 wrth ddatblygu a gweithredu'r cynigion manwl, gyda'r nod o lansio'r strategaeth derfynol yn gynnar yn 2012.

Ni fydd **Cynnig 2**, sefydlu rhaglen Llysgenhadon traws bleidiol yn cael ei ddilyn fel rhan o'r strategaeth oherwydd lefel yr adnoddau fyddai'n ofynnol a'r diffyg cefnogaeth cymharol i'r dewis hwn.

Cwestiwn 2: A oes unrhyw rwystrau fyddai'n atal pobl anabl rhag sefyll etholiad nad ydynt yn cael eu trafod gan y cynigion hyn? Os oes, beth ydyn nhw? A sut y gellid eu goresgyn?

36. Roedd 37 ymateb penodol i'r cwestiwn hwn, a ddisgrifiodd laweroedd o rwystrau oedd yn aml yn gyd-gysylltiedig. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod gormod o bobl anabl yn teimlo eu bod yn cael eu hallgau o ddemocratiaeth e.e. oherwydd bod maniffestos yn anhygyrch, iaith annealladwy (yn arbennig i bobl ag anawsterau dysg) a mynediad cyfyngedig i orsafoedd pleidleisio.

37. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr hefyd at y diwylliant presennol yn y Senedd ei hun fel rhwystr a chredent fod angen newid er mwyn annog pobl anabl i ymgeisio am swyddi etholedig. Dylai gweithio hyblyg gael ei ystyried ar gyfer gwleidyddion lleol a chenedlaethol.

38. Teimlai llawer o ymatebwyr y gall rhwystrau ffisegol wneud ymgyrchu yn anodd iawn gan y gall ymgyrchu olygu teithio i wahanol fathau o adeiladau a lleoliadau, gan gynnwys ardaloedd gwledig lle mae llawer o arwynebeddau cul ac anwastad.

Cwestiwn 3: A ydych yn ymwybodol o unrhyw waith sy'n bodoli y gall y cynigion hyn adeiladu arno?

39. Roedd 22 ymateb penodol, yn disgrifio cynlluniau presennol ac yn y gorffennol a allai fod yn berthnasol. Disgrifiodd nifer o'r ymatebwyr raglenni sy'n cynnig hyfforddiant mewn sgiliau arwain, siarad cyhoeddus, cynyddu hyder a rhwydweithio i gael llwyddiant a hyfforddiant bywyd. Mae prosiectau eraill wedi darparu hyfforddiant i bobl ifanc anabl i ddod yn arweinwyr yn eu cymunedau a datblygu fel addysgwyr i'w cymheiriaid.

40. Awgrymodd rhai ymatebwyr adeiladu ar y model Mynediad at Waith. Gall egwyddorion y cynllun a'r gefnogaeth ymarferol a gynigir gael eu defnyddio'n uniongyrchol ar gyfer ymgeiswyr sy'n cynnig eu hunain ar gyfer swydd etholedig.

41. Roedd un rhaglen yng Ngogledd Iwerddon yn cynyddu gwybodaeth a hyder mewn systemau gwleidyddol lleol a chenedlaethol ymhlith pobl fyddar a thrwm eu clyw, gyda gweithdai yn cynnig hyfforddiant mewn hunan hyder, trafodaethau anffurfiol ar faterion oedd yn bwysig i'r rhai oedd yn cymryd rhan a thrafodaeth trwy banel gydag amrywiaeth o wleidyddion o'r pedair prif blaid.

42. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn argymhell sesiynau cyfranogiad cyson rhwng gwleidyddion lleol a'r gymuned sydd wedi colli eu clyw, a hyfforddiant ymwybyddiaeth gwleidyddol i'r rhai sy'n mynegi diddordeb mewn swyddi etholedig. Argymhellwyd trafodaethau un i un gyda gwleidyddion lleol fel ffordd o leihau eu nerfau a modd o bontio'r bwlch canfyddedig rhwng y rhai mewn grym a phobl gyffredin, yn arbennig pan oedd y ffigyrau gwleidyddol yn medru cyfeirio at brofiad personol o fod yn fyddar. Roedd buddsoddiad cymharol fychan o ran amser gan y gwleidyddion mewn lleoliad anffurfiol yn broffidiol iawn o ran codi ymwybyddiaeth o broblemau'r byddar.

43. Gall canllawiau, fel Canllaw Radar ar Anabledd i Aelodau Seneddol, fod yn sylfaen i gyfarwyddyd i bleidiau gwleidyddol a deiliaid swyddi etholedig yn gyffredinol, tra gallai Deialog Anabledd Aelodau Seneddol Radar fod yn fodel i feithrin mwy o ymlyniad lleol rhwng pobl anabl a deiliaid swyddi etholedig.

Codi Ymwybyddiaeth

Cwestiwn 4: Beth yw'r ffordd orau o godi ymwybyddiaeth yn effeithiol i gyrraedd/cyfathrebu â phobl anabl a sefydliadau?

44. Roedd 33 ateb penodol, gyda llawer yn awgrymu ffyrdd o adeiladu ar gynlluniau codi ymwybyddiaeth wleidyddol ac anabledd sy'n bodoli, ymhlith grwpiau anabledd a'r cyhoedd yn fwy eang.

45. Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylid cael modelau rôl positif a all ddangos beth y mae pobl anabl yn medru ei wneud i gymdeithas. Dylid annog gwleidyddion anabl ar bob lefel wleidyddol i siarad mewn digwyddiadau i bobl anabl.

46. Gall ymgyrchoedd wedi eu targedu gael eu cyfeirio yn effeithiol at esgyll ieuencid/myfyrwyr y prif bleidiau gwleidyddol a chymdeithasau gwleidyddol mewn prifysgolion neu golegau, gan fod y rhain yn cynnig ffordd ddelfrydol i bobl gymryd y camau cyntaf mewn gwleidyddiaeth.

47. Byddai sefydliadau pobl anabl sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr mewn sefyllfa dda i rannu gwybodaeth i bobl anabl a sefydliadau fel Awdurdodau Lleol. Gallai sefydliadau anableddeffyd gynnal digwyddiadau i ennyn diddordeb i annog pobl anabl i gynnig eu hunain. Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd y gallai sefydliadau gwleidyddol redeg meddygfeydd cynghori mewn partneriaeth â sefydliadau anableddeffyd.

48. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd peidio â chanolbwyntio cyfathrebu trwy 'sianeli anableddeffyd', gan na fydd pob unigolyn anabl yn eu defnyddio. Er enghraifft, dylai gwybodaeth am Senedd yr Ifanc gynnwys enghreifftiau o bobl ifanc anabl sydd wedi cymryd rhan.

Cwestiwn 5: Beth ddylai fod yn swyddogaethau allweddol i'r Llysohadon a pha gefnogaeth a ddylent ei darparu?

49. Roedd 30 ymateb penodol i'r cwestiwn hwn. Awgrymodd yr ymatebwyr amrywiaeth o swyddogaethau posibl i'r Llysohadon gan gynnwys:

- Monitro'r arena wleidyddol i gyd, gan sicrhau ei bod yn hygyrch ac yn cael ei hyrwyddo ar bob pwynt.
- Dynodi unigolion talentog fel cam cyntaf yn y broses barhaus o gefnogaeth wedi ei theilwrio.
- Darparu cyfarwyddyd penodol, ymarferol (e.e. pecyn offer), yn ogystal â chefnogaeth ac ysbrydoliaeth i ymgeiswyr anabl. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, rhaid i Llysohadon gael y wybodaeth briodol er mwyn cyfeirio

unigolion at sefydliadau a ffynonellau cefnogaeth.

- Cefnogi pobl anabl i herio gwahaniaethu, er enghraifft, petai cyfweiliadau dewis yn cael eu cynnal mewn adeilad sydd ddim yn hygyrch, neu os bydd aelodau o'r blaidd wleidyddol yn gwneud sylwadau negyddol, neu nad yw deunydd polisi a marchnata yn hygyrch i bobl anabl.

50. Ond roedd rhai ymatebwyr yn bryderus nad oes corff digon mawr o Aelodau Seneddol a chynghorwyr anabl ar hyn o bryd i greu cynllun Llysohadon effeithiol ac fe allai fod yn faich mawr ar grŵp bychan o bobl. Mae pobl anabl am fod yn weithredol yn wleidyddol am yr un rhesymau â phawb arall, ac nid o angenrheidrwydd am eu bod yn anabl. Fe wnaeth yr ymatebwyr hefyd dynnu sylw at yr angen i fod yn ymwybodol o bryderon posibl y Llysohadon o gael eu labelu.

51. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn meddwl bod perygl i bleidiau ddirprwyo eu cyfrifoldebau canolog am gydraddoldeb i Llysohadon.

Cwestiwn 6: Sut gallwn ni ymwneud â'r cyhoedd yn gyffredinol, a'r pleidiau gwleidyddol, i drin y canfyddiad negyddol o ethol pobl anabl?

52. Derbyniwyd 29 ymateb gyda'r mwyafrif yn nodi ei bod yn bwysig cael delweddau mwy cadarnhaol o bobl anabl ar y cyfryngau. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y dylai'r Aelodau Seneddol a chynghorwyr lleol presennol gael eu hannog i weithredu fel modelau rôl a rhannu eu profiad o fod â swyddi etholedig. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai modelau rôl o'r fath gael eu hannog i ddarparu astudiaethau achos i'w defnyddio ar y cyfryngau cenedlaethol h.y. diwrnod ym mywyd gwleidydd neu gynghorydd lleol anabl. Gallai modelau rôl hefyd ddefnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

53. Dadleuodd rhai o'r ymatebwyr ei bod yn bwysicach ymdrin â'r canfyddiadau negyddol posibl ymhlith pleidiau gwleidyddol gan y byddent yn meddwl y byddai gan y cyhoedd bryderon am

ethol unigolyn anabl i'w cynrychioli. Fe wnaethant awgrymu y dylai pleidiau gwleidyddol weithio gyda phobl anabl neu sefydliadau anabledd i sicrhau bod hyfforddiant cydraddoldeb anabledd ar gael i swyddogion pleidiau, yn arbennig y rhai sy'n cymryd rhan yn y broses o ddewis ymgeiswyr.

54. Roedd un ymatebydd yn meddwl y dylid cael mwy o dystiolaeth weladwy bod gofynion anabledd yn cael eu hystyried er mwyn anfon neges glir at bobl anabl bod gofynion o'r fath yn bwysig. Er enghraifft, dylai unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cyfathrebu sydd mewn Pwyllgorau Seneddol fod yn weladwy mewn unrhyw ddarllediad neu trwy roi capsynnau ar bob busnes sy'n gysylltiedig â'r senedd.

55. Dadleuodd rhai ymatebwyr ei bod yn bwysig cyfathrebu â phobl ifanc, o bosibl trwy safleoedd rhwydweithio cymdeithasol neu trwy addysg.

Darparu hyfforddiant, datblygu a chefnogaeth

Cwestiwn 7: Pa sgiliau allweddol sy'n angenrheidiol i ddod yn wleidydd lleol neu genedlaethol?

56. Derbyniwyd 29 ateb sylweddol. Tanlinellwyd amrywiaeth o sgiliau. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at y sgiliau neu nodweddion canlynol (yn nhrefn poblogrwydd):

- Diddordeb mewn materion cymunedol a materion lleol/rhanbarthol.
- Sgiliau cyfathrebu (gyda phwyslais arbennig ar yr angen am siarad cyhoeddus).
- Hunan hyder a mynnu sylw er mwyn herio eraill yn effeithiol.
- Sgiliau dadansoddol.
- Hunan ddisgyblaeth.
- Sgiliau trefniadol.
- Sgiliau ymwybyddiaeth o fyddardod i'r holl wleidyddion a hyfforddiant mewn sgiliau cyfathrebu i wleidyddion byddar.

57. Teimlai rhai ymatebwyr bod ar wleidyddion angen nodweddion penodol fel cydymdeimlad, empathi, diplomyddiaeth, a brwdfrydedd i helpu eraill.

Cwestiwn 8: Sut gall hyfforddiant a datblygu gael eu darparu orau a'u gwneud yn hygyrch i bobl anabl?

58. Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno bod hyfforddiant a datblygu yn bwysig ac y dylai cyfleoedd ychwanegol fod ar gael i bobl anabl i'w cefnogi i gael eu hethol. Fe wnaethant dynnu sylw at yr angen am i gyfuniad o bobl anabl, sefydliadau i'r anabl a phleidiau gwleidyddol fod yn ymwneud â darparu a chyflwyno gweithgareddau hyfforddiant a datblygu. Teimlai pobl y dylai'r hyfforddiant hwn fod ar gael i unrhyw un sy'n dymuno cael ei ethol, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â phleidiau gwleidyddol fel ymgeiswyr annibynnol.

59. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod hygyrchedd unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu yn bwysig. Roedd y materion a nodwyd fel rhai oedd angen eu hystyried yn cynnwys hygyrchedd trafndiaeth, adeiladau, a bod deunydd y cwrs ar gael mewn amrywiaeth o ffurfiau addas a hygyrch.

60. Dynodwyd amrywiaeth o ffurfiau o hyfforddiant a datblygu fel rhai defnyddiol. Y rhai a grybwyllwyd amlaf oedd dysgu ar-lein a sesiynau wyneb yn wyneb. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd mentora, cysgodi gwaith a chyfle fel intern i bobl anabl sydd â diddordeb mewn swyddi etholedig.

Cwestiwn 9: Pa fathau eraill o gefnogaeth fyddai'n arbennig o fanteisiol i ddarpar ymgeiswyr anabl a'r rhai a etholir?

61. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at dair ffurf arall ar gefnogaeth yr oeddent yn teimlo a fyddai'n fanteisiol:

- **Mentora, cyfeillio a chysgodi.** Tynnodd nifer sylweddol o ymatebwyr sylw at y ffurfiau yma o gefnogaeth a fyddai'n fanteisiol i ddarpar

ymgeiswyr anabl a'r rhai a etholir. Nododd rhai y byddai hyn yn well o gael ei gynnig gan wleidyddion anabl neu bobl eraill anabl sydd wedi bod mewn sefyllfaoedd tebyg yn y gorffennol. Fe wnaethant hefyd awgrymu bod cynlluniau tebyg yn cael eu rhedeg ar gyfer pobl o grwpiau eraill sy'n cael eu tangynrychioli a fedrai fod yn batrwm defnyddiol ar gyfer y gwaith hwn.

- **Rhwydweithiau.** Amlygodd nifer o'r ymatebwyr bwysigrwydd rhwydweithiau cefnogi i bobl anabl sy'n dymuno mynd i'r byd gwleidyddol neu sydd eisoes ynddo. Dynododd un ymatebydd rwydweithiau tebyg ar gyfer menywod ac awgrymodd y gellid defnyddio model tebyg. Nodwyd bod rhaid cael cefnogaeth drefniadol i rwydweithio yn electronig ac wyneb yn wyneb.
- **Hyfforddiant a datblygu hygyrch.** Amlygodd nifer fawr o ymatebwyr y bydd raid i unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu fod yn hygyrch i bobl anabl. Roedd y materion a nodwyd fel rhai sydd angen eu hystyried yn ofalus yn cynnwys trafniadaeth, amseru cyrsiau, cefnogaeth bersonol, adeiladau hygyrch, a'r angen am ffonau testun er mwyn medru cyfathrebu â phobl fyddar.

Cwestiwn 10: Pa fath o hyfforddiant fyddai'n cynnig y ffordd fwyaf effeithiol o hyrwyddo'r gallu ymhlith Aelodau Seneddol neu gynghorwyr nad ydynt yn anabl iddynt gefnogi ymgeiswyr anabl?

62. Atebodd 33 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Ond, nid oedd pob un o'r rhain yn ateb y cwestiwn yn uniongyrchol. Roedd mwyafrif y rhai a wnaeth awgrymiadau yn mynegi'r angen am ymwybyddiaeth o faterion anabledd a gallu a chyrhaeddiad pobl anabl. Dadleuai'r ymatebwyr y byddai 'hyfforddiant ymwybyddiaeth' wedi ei dargedu ar gyfer gwleidyddion lleol a chenedlaethol yn ymdrin â'r canfyddiad negyddol ac yn creu mwy o ddealltwriaeth o'r problemau sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o anabledd.

63. Nododd rhai ymatebwyr na fydd llawer o bobl anabl yn ystyried gyrfa mewn gwleidyddiaeth hyd yn oed gan na fyddant yn ei weld fel

posiblrwydd sydd ar agor iddynt a bod rhaid i bleidiau gwleidyddol chwarae rhan weithredol wrth ennyn ymlyniad ac annog pobl anabl.

64. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr angen am ragor o hyfforddiant amrywiaeth a chydraddoldeb ac y dylai'r hyfforddiant hwn gael ei ddylunio a'i gyflwyno gyda chyfraniad pobl anabl.

65. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y gallai cynlluniau cysgodi a mentora osod Aelodau Seneddol a chynghorwyr nad ydynt yn anabl yn bartneriaid gydag ymgeiswyr anabl neu Aelodau Seneddol a chynghorwyr sydd newydd eu hethol. Gallai hyn roi cyfle i'r mentor gael gwell dealltwriaeth a phrofiad personol o'r problemau y mae ymgeisydd anabl yn gorfod eu hwynebu.

Gwella hygyrchedd swydd etholedig

Cwestiwn 11: O ystyried pa mor gyfyngedig yw'r adnoddau, pa feini prawf a ddylid eu hystyried wrth benderfynu pa ymgeiswyr anabl posibl ddylai gael budd o gronfa?

Atebodd 32 o ymatebwyr y cwestiwn hwn ond ni wnaeth llawer ymdrin â'r broblem o feini prawf posibl ar gyfer y gronfa a fwriedir.

66. Nid oedd mwyafrif yr ymatebion yn nodi'n benodol y meini prawf posibl ar gyfer y Gronfa a fwriedir. Roedd mwy nag un ymatebydd yn meddwl y dylai'r Gronfa gynnig cefnogaeth i unrhyw ymgeisydd sydd angen cefnogaeth ariannol ychwanegol o ganlyniad i anabledd, er eu bod yn cydnabod y byddai gweithredu hyn yn ymarferol yn dibynnu ar yr adnoddau fyddai ar gael.

67. Roedd nifer o ymatebwyr yn cydnabod mor hawdd fyddai peri tramgwydd personol a gwleidyddol wrth ddatblygu meini prawf a fyddai'n deg, yn glir ac yn dryloyw i bawb fyddai am ymgeisio ond pwysleisient fod y rhain i gyd yn hanfodol i hygyrchedd y strategaeth gyffredinol. Roedd barn gref gan nifer o ymatebwyr bod raid datblygu meini prawf ac y dylid cytuno arnynt trwy ymgynghori â sefydliadau hawliau i'r anabl.

68. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y dylid edrych ar y meini prawf ar gyfer cyllido Mynediad at Waith a defnyddio hyn fel sail ar gyfer y Gronfa Mynediad at Swydd Etholedig. Awgrymodd nifer fechan y dylai ymgeiswyr gael eu cofrestru yn anabl dan amodau Deddf Cydraddoldeb 2010.

69. Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn meddwl y dylai ymgeiswyr am y Gronfa hefyd fedru dangos hanes o weithgaredd gwleidyddol naill ai trwy blaid wleidyddol neu ar lefel fwy sylfaenol trwy weithio dros eu cymuned leol. Meddyliai rhai ymatebwyr y dylai teilyngdod y ceisiadau a'r tebygolrwydd y byddent yn cael eu hethol gael eu hystyried, gan gofio hefyd am farn y blaid wleidyddol berthnasol a'r rhai sy'n eu hadnabod. Roedd yr un ymatebwyr yn meddwl y dylai'r broses o lunio penderfyniad gynnwys pobl anabl.

Cwestiwn 12: Ar ba gam ddylai unigolyn fod yn gymwys am gefnogaeth o gronfa?

70. Derbyniwyd 24 ateb, gyda'r mwyafrif llethol yn ffafrio bod yr arian ar gael yn ystod y cyfnod cyn dewis. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid gofyn i ymgeiswyr ddangos rhywfaint o ymrwymiad i ddal swydd gyhoeddus, fel tystiolaeth o waith cymunedol neu wirfoddol, er mwyn dod o hyd i ffordd o asesu cymhwyster rhai nad ydynt wedi cael profiad gwleidyddol yn y gorffennol.

71. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr bod pleidiau gwleidyddol yn dueddol o roi mwy o gefnogaeth unwaith y mae ymgeisydd wedi cael ei ddewis yn swyddogol ac felly bod cefnogaeth yn fwy hanfodol yn y cyfnod cyn y dewis gan y byddai'r rhwystrau yn anos i'w goresgyn yn y cyfnod heb gefnogaeth y blaid. Byddai cefnogaeth trwy'r cyfnod cynnar hefyd yn cynorthwyo ymgeiswyr annibynnol yn sylweddol gan y byddai'n debygol y byddent yn gorfod ariannu'r holl gostau o'u pocedi eu hunain.

72. Meddyliai nifer o'r ymatebwyr mai dim ond ar ôl iddynt gael eu dewis yn swyddogol yn ymgeisydd y blaid neu yn ystod ymgyrchoedd etholiad i ymgeiswyr annibynnol y dylai cyllid fod ar gael i unigolion.

73. Dadleuai rhai ymatebwyr, gan fod y gweithdrefnau yn wahanol i wahanol bleidiau gwleidyddol, y dylid cael proses ymgeisio gyffredinol heb unrhyw gyfyngiadau o ran cymhwyster. Gellid ystyried ceisiadau yn erbyn yr un set o feini prawf, pa bynnag mor bell y byddai'r ymgeisydd wedi mynd yn ei flaen.

Cwestiwn 13: Sut gallai cronfa gyda chyfyngiad ariannol osod ceisiadau yn nhrefn blaenoriaeth yn deg mewn unrhyw flwyddyn?

74. Derbyniwyd 22 o ymatebion. Nid oedd consensws clir na barn fwyafrifol ymhlith yr ymatebwyr o ran sut y gellid gosod trefn blaenoriaeth ar y cyllid.

75. Roedd rhai ymatebwyr yn meddwl y dylai cyllid gael ei ystyried yn flynyddol a fyddai'n rhoi cyfle i asesu ceisiadau trwy eu cymharu â'i gilydd a gosod ceisiadau yn nhrefn blaenoriaeth yn ôl mesurau gwahanol fel teilyngdod neu'r tebygolrwydd y byddent yn cael eu hethol. Byddai "fffenestr" ariannu flynyddol hefyd yn cynnig ffordd o geisio dosbarthu arian i amrediad eang o ymgeiswyr e.e. cydbwysu cyllid rhwng etholiadau lleol a seneddol. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cael cyfle i ymgeisio am arian ddwywaith y flwyddyn.

76. Dadleuodd nifer fechan o'r ymatebwyr y dylai lefel y cyllid amrywio yn ôl y galw fel y byddai mwy o arian yn cael ei rannu yn ystod ymgyrchoedd etholiad pan fyddai'r costau yn debygol o fod yn uwch ond bod llai o ymgeiswyr. Er y gellid gweld nifer sylweddol uwch o geisiadau yn y cyfnod cyn y broses ddewis swyddogol, dylai'r symiau dan sylw fod yn llawer is gan y byddai'n debygol y byddai angen llai o gefnogaeth. Awgrymwyd hefyd y dylid cael mynediad at arian ar gyfer unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r cyfnod asesu neu ddewis ar unrhyw amser, ond y gellid cael dyddiad cau penodol ar gyfer y gronfa etholiad i dalu costau yn ystod cyfnod yr ymgyrch.

77. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r Gronfa weithredu yn yr un ffordd â'r Lwfans Myfyrwyr Anabl, gyda symiau penodol o arian ar gyfer gwahanol fathau o gefnogaeth (e.e. cefnogaeth

ar gyfer costau cyfathrebu, teithio neu weithwyr cefnogi) a'r ymgeiswyr yn cyflwyno tystiolaeth o wariant.

78. Awgrymodd ymatebydd arall y gallai pwyllgorau bychain rhanbarthol wneud penderfyniadau ar gyllido yn cynnwys pobl anabl o wahanol fathau (swyddogion etholedig presennol o ddewis) a chynrychiolaeth o'r corff cyllido.

79. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd peidio â rhoi blaenoriaeth i geisiadau bychain am arian ar draul dyfarniadau uwch fel arian parhaus i gyfieithwyr laith Arwyddion Prydain (BSL).

Cwestiwn 14: Sut y gallwn ni bennu pa weithgareddau ddylai gael eu cynnwys i gael cefnogaeth ac am ba gyfnod?

80. Derbyniwyd 25 ateb sylweddol. Roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r holl weithgareddau nad ydynt yn cael eu cynnwys gan yr ymrwymadau presennol dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gael eu cynnwys yng nghylch gorchwyl y Gronfa. Ond, fe bwysleiswyd na ddylid defnyddio arian i gael mantais wleidyddol ar ymgeiswyr eraill i osgoi unrhyw ymateb negyddol posibl yn erbyn ymgeiswyr anabl. Felly, byddai'n rhaid i geisiadau gael eu hystyried yn ofalus er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio yn unig i oresgyn rhwystrau yn gysylltiedig ag anabledd ac nid i dalu am weithgareddau gwleidyddol cyffredinol fel cynhyrchu llyfrynau plaid neu ddeunyddiau hyrwyddo.

81. Awgrymodd nifer sylweddol o ymatebwyr y dylai'r Gronfa dalu am y mathau canlynol o gostau:

- Cefnogaeth i gyfathrebu trwy gydol y broses ddewis e.e. help gyda chostau cyflogi cyfieithydd laith Arwyddion neu gyfathrebwr i fynd gydag unigolyn, lle gall rhwystrau godi o ran cyfathrebu yn ystod y broses ddewis a'r hystingau.
- Offer a chymorthyddion arbennig – darparu cymorthyddion ac offer na fyddai ar ymgeisydd nad yw'n anabl eu hangen.

- Gweithwyr cefnogi – help gyda chostau cyflogi gweithwyr cefnogi personol i gefnogi'r ymgeisydd anabl wrth wneud ei ddyletswyddau fel ymgeisydd.
- Teithio a llety – cefnogaeth gyda chostau ychwanegol teithio neu lety, er enghraifft y gost ychwanegol o gymryd tacsï yn hytrach na bws, neu aros mewn ystafell hygyrch mewn gwesty yn hytrach nag yng nghartref aelod o'r blaid, wrth gyflawni ei ddyletswyddau fel ymgeisydd.

82. Teimlai rhai ymatebwyr hefyd y dylai'r Gronfa dalu am rai costau amrywiol fel eitemau 'unwaith ac am byth' nad ydynt yn dod dan bennawd arall, fel grant tuag at gostau hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd i aelodau o'r gymdeithas leol.

83. Nid oedd consensws gwirioneddol o ran y cyfnod y gall ymgeiswyr dderbyn cefnogaeth ariannol gan y Gronfa. Teimlai rhai ymatebwyr mai dim ond yn ystod y cyfnod wedi eu dewis a chyn yr etholiad y dylai ymgeiswyr fod yn gymwys i gael cyllid, h.y. yn ystod yr ymgyrch etholiadol ei hun. Roedd yn well gan ymatebwyr eraill i'r arian fod ar gael yn ystod y cyfnod cyn iddynt gael eu dewis gan fod yr ymgeiswyr yn debygol o gael mwy o gymorth gyda gwariant yn gysylltiedig ag anabledd ar ôl iddynt gael eu dewis fel ymgeisydd swyddogol.

Cwestiwn 15: Sut ddylai cyllid gael ei ddosbarthu ar ôl cytuno y bydd unigolyn yn cael cyllid?

84. Derbyniwyd 19 o ymatebion. Roedd y mwyafrif yn cytuno y dylai'r taliadau gael eu gwneud yn uniongyrchol i'r unigolion sy'n gofyn am gymorth er mwyn osgoi unrhyw ficrocratiaeth a sicrhau bod yr holl gymorth ariannol a ganiatawyd yn cael ei dderbyn gan yr unigolyn.

85. Dadleuodd nifer sylweddol y dylai'r taliadau gael eu gwneud ymlaen llaw i osgoi creu anfantais i unigolion sydd ar incwm isel neu heb lif arian cyson.

86. Teimlai rhai ymatebwyr y dylai'r arian gael ei ddsbarthu i unigolion pan fyddai derbynebaw am y pryniannau perthnasol ar gael neu gyda rhai taliadau yn mynd yn uniongyrchol i'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth neu gynnyrch, h.y. cyfieithwyr laith Arwyddion.

87. Dadleuodd rhai ymatebwyr y dylai'r cyllid gael ei fonitro yn ofalus a'i adolygu yn gyson i sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddsbarthu yn deg ac yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol. Cyfeiriwyd hefyd at y model Mynediad at Waith fel un dda i'w dilyn o ran dosbarthu cyllid.

88. Teimlai un ymatebydd y dylid rhoi un grant unwaith ac am byth i'r unigolyn ar ôl gwneud asesiad cyffredinol o'i anghenion.

89. Dadleuodd ymatebwr arall y dylid gosod terfynau uchaf ac isaf ac y dylai'r dosbarthiad gael ei benderfynu yn rhannol gan ganlyniad unrhyw asesiad ar anghenion.

Cwestiwn 16: A oes unrhyw feysydd/fathau o wariant na ddylai'r gronfa eu talu?

90. Derbyniwyd 21 o ymatebion. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn cytuno na ddylai'r Gronfa dalu am unrhyw gostau nad ydynt yn gysylltiedig ag anabledd nag unrhyw gostau sydd yr un mor berthnasol i ymgeiswyr nad ydynt yn anabl, gan y gall hyn roi mantais wleidyddol i'r ymgeiswyr. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno hefyd na ddylai'r Gronfa dalu'r costau hynny a ddylai gael eu talu gan bleidiau gwleidyddol wrth gyflawni eu hymrwymiad i ddarparu addasiadau rhesymol.

91. Nododd rhai ymatebwyr weithgareddau penodol na ddylid eu hariannu, h.y. adloniant, alcohol, dillad, llety mewn ward neu etholaeth.

92. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr angen i ystyried lwfansau eraill wrth benderfynu ar gyllid, h.y. Mynediad at Waith, Taliadau Annibyniaeth Personol ac yn y blaen.

93. Cododd nifer o'r ymatebwyr y mater a ddylai'r Gronfa dalu am unrhyw gostau yn gysylltiedig â rhedeg ymgyrch etholiad. Roedd

consensws clir na ddylai'r Gronfa dalu am gynhyrchu deunyddiau etholiad, fel posteri, llythyrau neu daflenni.

94. Teimlai dau ymatebydd na ddylid cael unrhyw gyfyngiadau o ran pa fathau o dreuliau ddylai gael eu cynnwys.

Cwestiwn 17: Pa fathau o bolisiau, canllawiau ac adnoddau cenedlaethol a lleol ddylai pleidiau gwleidyddol eu cael i ddarparu cefnogaeth ymarferol a mynediad i ymgeiswyr anabl?

95. Derbyniwyd 29 o ymatebion. Tynnodd y mwyafrif sylw at yr angen i bleidiau gwleidyddol ddeall eu hymrwymiaidau cyfreithiol, fel sy'n cael eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, gan eu bod yn teimlo bod y ddeddfwriaeth yn rhoi fframwaith da i bleidiau gwleidyddol. Teimlai ymatebwyr hefyd y dylai pleidiau gwleidyddol fod yn chwilio am ffyrdd o hyrwyddo cyfranogiad o blith pobl anabl.

96. Teimlai nifer fawr o ymatebwyr y dylai pleidiau gwleidyddol gael polisi sy'n cael ei hysbysebu yn dda ar ddarparu addasiadau rhesymol, er mwyn cynyddu hyder ac annog ymgeiswyr i ddatgelu manylion unrhyw nam sydd ganddynt. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn rhwydd ac mewn ffurfiau hygyrch.

97. Nododd nifer sylweddol o ymatebwyr y dylai pleidiau gwleidyddol ymgynghori â phobl anabl/sefydliadau i'r anabl i sefydlu polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth effeithiol, gan gynnwys canllawiau ar hygyrchedd ac i sicrhau eu bod yn cyfathrebu yn effeithiol. Dylai llyfrynnau a gwefannau'r pleidiau gynnwys deunydd hygyrch. Teimlai nifer o ymatebwyr hefyd y dylai pob plaid wleidyddol fod â swyddog anabledd penodol i sefydlu deialog dda gyda sefydliadau i'r anabl a llunio polisiau cenedlaethol neu leol ar anabledd.

98. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod i swyddogion pleidiau a'r angen i ddarparu dogfennau yn laith Arwyddion Prydain. Byddai ymgynghori â'r prif

sefydliadau ymwybyddiaeth o fyddardod yn cynnig sylfaen dda ar gyfer deall gofynion defnyddwyr laith Arwyddion Prydain. Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at yr angen i bleidiau gwleidyddol gael agwedd goddef dim o ran gwahaniaethu.

99. Roedd rhai ymatebwyr yn meddwl y dylai pleidiau gwleidyddol fonitro eu haelodau i gael syniad clir o'r anghenion o ran amrywiaeth. Gallai cynrychiolwyr rhanbarthol ar bwyllgorau rhanbarthol gael rôl wrth oruchwyllo'r polisi ar gyfer addasiadau rhesymol. Efallai y byddai pleidiau gwleidyddol hefyd am ystyried cynnig cymhelliant i etholaethau lleol sy'n cefnogi ymgeiswyr mwy amrywiol, er mwyn goresgyn y diffyg cysylltiad rhwng swyddfeydd canolog y blaid a strwythurau lleol.

Cwestiwn 18: A oes unrhyw sylwadau y byddech yn dymuno eu gwneud yng nghyswllt yr ymgynghoriad hwn nad ydynt eisoes wedi cael eu trafod gan y ffurflen hon? Os oes, esboniwch os gwelwch yn dda.

Y prif bwyntiau a godwyd fel ymateb i Gwestiwn 18:

- Mwy o addysg wleidyddol yn yr ysgolion i ymdrin â rhwystrau o ran agweddau/diwylliant. Mae hyn yn broblem benodol i fyfyrwyr Anghenion Addysgol Arbennig a myfyrwyr ag Anabledd Dysgu a all beidio â chael unrhyw ffurf ar addysg wleidyddol.
- Angen sicrhau bod y gwahaniaeth rhwng sefydliadau anabledd a sefydliadau i bobl anabl yn cael eu deall gan y Llywodraeth a'r pleidiau gwleidyddol. Rhaid cynnwys y ddau fath o sefydliad yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth.
- Mae'r cynnig i sefydlu Cronfa yn cael ei groesawu ond mae'r swm sydd wedi ei glustnodi yn fychan iawn.
- Nodwyd bod yr ymrwymiad ariannol ar gyfer seddi y gellir eu hennill neu seddi agos yn fwy sylweddol ac y gall y costau ychwanegol fod yn rhwystr i nifer o ymgeiswyr.
- Roedd deiseb ynghlwm wrth un ymateb â 300 llofnod arni yn gofyn i'r ddeddf gael ei newid i ganiatáu i Aelodau Seneddol rannu swyddi.

- Roedd y stigma canfyddedig parthed salwch meddwl hefyd yn cael ei godi fel rhwystr sylweddol. Croesawodd yr ymatebwyr y bwriad i ddiddymu Adran 141 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.
- Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr angen i ystyried yr effaith bosibl ar fudd-daliadau, lwfansau ac ati. Awgrymwyd hefyd y dylai lwfansau Cyngorwyr gael eu heithrio o dreth incwm.

Atodiad A

Rhestr o sefydliadau ac unigolion a ymatebodd

Scope
RADAR
Y Democratiaid Rhyddfrydol
RNID
Association of Democratic Service Officers
North Kesteven District Council
Scottish Independent Advocacy Alliance
Ideal for All
City of Bradford Metropolitan District Council
Cheshire West and Chester Council
Scottish Council on Deafness
People First
Muscular Dystrophy Campaign
Awdurdodau Heddlu Cymru
Colchester Borough Council
Dyslexia Pathways
Spinal Injuries Association
Infrastructure Network for Disability Information
Cyflwyniad o Gyfarfod 9 Mai, a drefnwyd gan y
Swyddfa Materion Anabledd
Cyflwyniad o Gyfarfod 9 Mai, a drefnwyd gan
Scope
Cyflwyniad o Weithdy RADAR Young
Ambassadors – Leeds
Wiltshire Council
Wiltshire Council Staff Disability Forum
Mencap
Y Cynghorydd Pam Thomas
Scottish Youth Parliament
National Association of Deafened People
Southampton Centre for Independent Living
(SCIL)
Communication Worker's Union (CWU)

Action Deafness
British Deaf Association
E-local News
Leicestershire Centre for Integrated Living
Regional Equality and Diversity Partnership –East
Midlands
Rethink
Alison Hicking
Siobhan Fennel
Peter Farrington
Linda Curran
Alison Bucknell
Liz Williams
Ted Pottage, NHS Foundation Trust Governor
Linda Mclean
Irena Paterson
Y Cynghorydd David Buxton

ISBN: 978-1-84987-575-2
© Hawlfraint y Goron 2011

Gallwch ail ddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) heb dâl ar unrhyw ffurf neu unrhyw gyfrwng, dan amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

Er mwyn gweld y drwydded, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/
neu ysgrifennwch at Information Policy Team,
The National Archives, Kew, London TW9 4DU,
neu anfonwch e-bost at:
psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan hefyd yn www.homeoffice.gov.uk/equalities/equality-public-political/